**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**
**24-03-09**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Michael Parry (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Robert J. Wright, Sion Selwyn Roberts, Peter Read, (Cyngor Gwynedd), Michael Sol Owen, (Cyngor Tref Pwllheli), David Bayly a David Dewsbury, (Cymdeithas Cychod Hafan), John Morris (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli), David Hughes, (Siambr Fasnach Pwllheli), Dr.J..L.Jones Morris, (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog)

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Huw Davies (Peiriannydd Grŵp), Wil Williams, (Rheolwr Hafan Pwllheli), Dafydd Phillips, (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2008 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyda sylw'n cael ei roi i wahanol faterion yn unigol::

### ***FFIOEDD A THALIADAU***

Adroddodd y swyddog fod y ffioedd a'r taliadau bellach wedi eu cymeradwyo ac ychwanegodd fod 372 o gytundebau am angorfeydd yn yr Hafan wedi eu cadarnhau. Disgwylir i'r 34 sy'n weddill gael eu dychwelyd yn fuan.

Eleni mae 62 cyn-gwsmer wedi tynnu'n ôl o'r Hafan hyd yma. 'Roedd y nifer yma ychydig yn llai na'r llynedd ond ychwanegodd y swyddog mai'r nod oedd cael ychydig iawn o symudiad. Mae yna 325 yn parhau ar y rhestr aros gyfredol, ond nodwyd bod 252 o'r rhain wedi cael cynnig angorfa ond wedi penderfynu gwrthod am eleni.

Nododd y swyddog fod y sefyllfa yn yr harbwr allanol yn gadarnhaol.

O safbwynt y cynnydd yn y ffioedd a'r taliadau, esboniodd y swyddog fod y cynnydd ar gyfer angorfeydd pontynau heb drydan yn Hafan Pwllheli yn 4% gyda'r cynnydd ar gyfer pontynau sydd wedi eu gwasanaethu gyda thrydan yn 6%. Yn angorfeydd yr harbwr allanol bydd cynnydd o 2% i gleientiaid sy'n byw'n barhaol yng Ngwynedd a'r cynnydd i gleientiaid sy'n byw tu allan i Wynedd yn 4%. Er hyn bydd y gostyngiad mewn TAW o 17.5% i 15% o 1 Rhagfyr yn sicrhau fod y gost net i'r cleient wedi gostwng.

Pwysleisiodd y swyddog fod yr Uned Forwrol yn wynebu blwyddyn anodd a heriol iawn gyda chynnydd o £51, 020 yn y targed incwm. Yn sgil hyn bydd cyfanswm targed incwm yr Uned Forwrol yn cynyddu i £2,121,900 yn 2009/10

Mynegwyd pryder gan y swyddog o safbwynt y targedau incwm yn yr Hafan yn arbennig oherwydd y 10% sy'n daladwy i Stad y Goron. Ychwanegodd fod pryder ynglŷn â'r modd y mae'r ffioedd yn cynyddu. 'Roedd yn ffyddiog y gellir cyrraedd y farchnad y flwyddyn yma, ac er bod rhai yn dewis gadael yr Hafan, 'roedd y swyddog yn gobeithio y byddant yn manteisio ar adnoddau sydd ar gael yn yr harbwr allanol neu harbyrau eraill Gwynedd.

Pwysleisiodd y swyddog ymhellach na ellir dal ati i gynyddu'r ffioedd ar raddfa yn uwch na chwyddiant am flynyddoedd i ddod. Oherwydd hyn, cadarnhawyd fod camau angen eu cymryd i edrych ar y ffioedd yn fwy strategol.

Mynegwyd cryn bryder ynglŷn â'r cynnydd o 6% ar gyfer pontynau'r Hafan sydd wedi eu gwasanaethu gan drydan . Pwysleisiodd cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli fod y swm yma yn llawer uwch na graddfa chwyddiant ac yr oedd am nodi'n arbennig fod cyfanswm cynnydd o rhwng 25% a 30% wedi ei gyflwyno yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelai fod hyn yn afresymol.

Awgrymodd yr aelod ymhellach y byddai trefn i alluogi morwyr sy'n angori yn yr Hafan i dalu'r ffioedd yn fisol yn fuddiol, a gofynnodd a oedd modd cyflwyno trefn ar gyfer sicrhau disgownt i drigolion lleol, fel ag yr un sydd eisoes yn bodoli yn yr harbwr allanol.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ddulliau tecach o dalu am drydan a nodwyd gan swyddogion y byddai opsiynau yn cael eu hystyried.

Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod y materion yma eisoes yn cael sylw a byddai'n gallu cyflwyno gwybodaeth bellach i'r aelodau yn y dyfodol gyda'r gobaith o gael canllawiau 2010/11. Nid oedd yn rhagweld y byddai system o dalu'n fisol dros gyfnod o 12 mis yn debygol.

Rhoddwyd cryn sylw i'r modd mae'r ffioedd yn cael eu pennu a galwyd am esboniad llawn. .

**PENDERFYNWYD:**

- **i)** **bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ar daliadau a wneir yn sgil Les y Goron,**
- **ii)** **bod adroddiad yn cael ei ddarparu gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wedi i ystyriaeth bellach gael ei roi i'r posibilrwydd o roi disgownt i drigolion lleol sy'n angori yn yr Hafan a'r posibilrwydd o roi hawl i ddefnyddwyr yr Hafan dalu'r ffioedd yn fisol.**
- **iii)** **bod adroddiad yn cael ei ddarparu ar systemau a ellid eu cyflwyno i dalu am drydan**
- **iv)** **bod cais yn cael ei wneud i gynrychiolydd o Adran Trysorydd y Cyngor fynychu cyfarfod nesaf y pwyllgor hwn fel y gellir cael gwybodaeth fanwl ar y drefn a ddilynir wrth bennu'r ffioedd.**

***CYLLIDEBAU***

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at drafferthion sy'n deillio o'r hinsawdd economaidd. Nododd ei bod yn hanfodol bod yr Uned yn cyrraedd y targed incwm. Os na wneir hynny bydd yn rhaid cyflwyno toriadau mewn mannau eraill. Oherwydd ei bwysigrwydd ni fydd dim yn amharu ar gyllid yr Hafan.

'Roedd y swyddog yn ffyddiog y bydd yr Hafan yn cyrraedd, neu efallai yn mynd gam ymhellach na'r targed incwm, ond dywedodd fod ychydig o ddiffyg yn incwm yr harbwr allanol.

Nodwyd gan aelod fod yr adroddiad yn seiliedig ar gyfnod o ddeg mis. Mewn ymateb i hyn, awgrymwyd y byddai amseriad o gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor yma ym mis Mai a mis Rhagfyr yn rhesymol.

Nododd y swyddog mai trefn holl bwyllgorau ymgynghorol harbyrau'r sir yw cynnal cyfarfodydd ar ddechrau a diwedd tymor. Awgrymodd y swyddog y gellid anfon ffigyrau terfynol blynyddol i'r aelodau er gwybodaeth, ond ychwanegodd y byddai'n rhaid ystyried amserlen pwyllgorau ymgynghorol harbyrau Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw.

**PENDERFYNWYD bod cais yn cael ei wneud i gyfarfodydd y pwyllgor hwn gael eu cynnal ym mis Mai a mis Rhagfyr ac os nad yw hyn yn bosib bod cynnig y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i anfon y ffigyrau terfynol i'r aelodau, yn cael ei dderbyn.**

***MORDWYO***

Adroddodd y swyddog fod peth gwaith i'w wneud ar y cymhorthion mordwyo a nodwyd y byddai pob risg a diogelwch yn cael ei ystyried yn llawn.

Lleolwyd tri bwi pwrpasol ar geg yr harbwr a nodwyd bod yr Uned mewn trafodaethau hefo Tŷ'r Drindod i ystyried os oes modd rhoi golau arnynt. Eglurwyd y byddai nifer gormodol o oleuadau'n cymhlethu'r sefyllfa.

Cwblhawyd gwaith cynnal a chadw ar holl angorfeydd yn yr harbwr allanol a chyfeiriwyd ymhellach at y bwriad i osod bwi ychwanegol ger 'safle Partington ' er sicrhau nad oes neb yn mynd yn rhy agos at y wal ddeheuol. Gwnaed y penderfyniad yma oherwydd y llaid sy'n casglu yno ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

***PROSIECT ACADEMI HWYLIO***

Adroddwyd fod y prosiect o ddatblygu Academi Hwylio ym Mhwllheli yn parhau i ddatblygu. 'Roedd disgwyl i 'JOP Consulting' gwblhau'r gwaith o lunio adroddiad ar Asesiad o'r effaith economaidd-gymdeithasol ac ieithyddol gyda'r adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Technegol yn y dyfodol agos.

Gyda'r aelodau lleol a Chadeirydd y Pwyllgor hwn yn gwasanaethu ar y Grŵp Technegol, adroddodd y Cadeirydd fod nifer o gyfarfodydd buddiol wedi eu cynnal allan yn y gymuned.

Fel rhan o brosiect yr harbwr cyfan, comisiynwyd cwmni i edrych ar lithrfa'r Hafan a'r mynediad. Nodwyd na chafodd y llithrfa ei chynllunio ar gyfer y defnydd trwm sydd arni erbyn hyn, a bydd y cwmni yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno cynlluniau manwl ar gyfer lledu'r llithrfa yn sylweddol ac edrych ar fynedfa wahanol i Ffordd Penrhyn Glandon.
Ychwanegodd y swyddog fod sicrhau diogelwch yn elfen bwysig o'r prosiect yma.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

***GŴYL WAKESTOK /GŴYL FWYD***

Nodwyd fod bwriad i gynnal Gŵyl Wakestock rhwng 10 a 12 Gorffennaf 2009. Ni dderbyniodd yr Uned Forwrol unrhyw gwynion y llynedd pan gynhaliwyd yr ŵyl am dridiau am y tro cyntaf . Cynhelir Gŵyl Fwyd Llŷn ar 23 a 24 Mai.

O safbwynt Gŵyl Wakestock, nodwyd fod cyngor yr aelodau lleol ynglŷn â thrafnidiaeth wedi ei dderbyn a bod cau Ffordd Cei'r Gogledd wedi lleihau trafferthion. Nodwyd gan aelod fod disgwyl i'r un drefn barhau eleni.

Mynegwyd pryder o achos cyflwr y tir sy'n ganolbwynt i'r ddwy ŵyl. Derbyniwyd y byddai'r mater yn cael sylw a nodwyd gan y swyddog fod cadw gwyrddni'r tir yn bwysig ond bod hefyd angen ystyried hwylustod y cwsmeriaid.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

***CLWB HWYLIO***

Diolchodd y Swyddog am gyfraniad y Clwb Hwylio i'r gweithgareddau blynyddol a chyfeiriodd yn arbennig at gystadleuaeth yr Optimist Cenedlaethol a oedd yn hynod lwyddiannus ym Mhwllheli yn 2008. Bydd Cystadleuaeth Pencampwriaeth y Byd –Mirrors yn cael ei chroesawu i Bwllheli eleni.

Nododd cynrychiolydd y Clwb eu bod yn awyddus i gyfarfod gyda'r Siambr Fasnach a'r Cyngor Tref fel y gellir tynnu sylw at y rhaglen o weithgareddau a drefnwyd a'r niferoedd a ddisgwylir eu gweld ym Mhwllheli. Yn sgil hyn gellir tanlinellu'r cyfleoedd fydd yn deillio o'r gweithgareddau.

Fel cymorth pellach ychwanegwyd at y pontŵn digwyddiadau. Eglurodd y swyddog fod maint y pontŵn wedi cael ei ddyblu, a hyderir y bydd hyn o fudd pan fydd angen angori cychod dros gyfnod y digwyddiadau.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

***RHEOLIADAU LLONGAU DRAFFT***

Cyflwynodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wybodaeth ynglŷn â bwriad i gyflwyno deddfwriaeth gerbron y Llywodraeth fyddai'n dod â rheolau yfed alcohol ar gychod pleser i union yr un lefel â gyrru modur ar y ffordd fawr.

Caiff y rheoliadau bwriededig eu symleiddio trwy nodi eu bod yn cynnwys cychod sydd dros 7 medr o hyd neu'n gallu gwneud mwy na 7 not. Newidir rheolau hefyd fel bod Badau Dŵr Personol yn cael eu cynnwys o fewn y ddeddfwriaeth.

Ymhellach, bwriedir newid y ddeddf fel mai'r heddlu'n unig all roi'r prawf anadl os yw swyddogion arforol yn dal rhai a allasai fod yn torri'r rheolau.

Mynegwyd pryder gan aelod oedd yn ofni y byddai'r ddeddf yn gweithredu yn erbyn rhai fyddai ar fwrdd cwch hyd yn oed pe byddai ar angorfa neu wedi ei

rhwymo i bontŵn. Yn ôl darlleniad y ddeddf nid oedd y Swyddog yn credu fod hyn yn wir, ond addawodd wneud ymholiadau pellach i'r mater yn ogystal â'r gosb a allasai ddilyn trosedd o safbwynt y ddeddfwriaeth newydd.

Galwyd hefyd am wybodaeth ynglŷn â'r modd y gellir ymdrin â rhai fyddai'n defnyddio *'jet skis'* heb oleuadau wedi i'r badau yma gael eu cynnwys o fewn y ddeddf. Eglurodd y swyddog bod rhaid i gychod gydymffurfio â rheolau mordwyo a rheolau'r 'International Regulations for Preventing Colisions at Sea.'

**PENDERFYNWYD:**

- **i) bod y Pwyllgor yn croesawu'r Ddeddfwriaeth newydd**
- **ii) bod ymholiadau pellach yn cael eu gwneud i'r modd y gallasai'r ddeddfwriaeth effeithio ar rai sydd ar fwrdd bad wedi ei angori neu ei rhwymo.**
- **iii) bod ymholiadau'n cael eu gwneud i'r modd y gellir ymdrin â'r angen i gael goleuadau at *'jet skis'* pan fydd y badau'n rhan o'r ddeddfwriaeth.**

## ***BARN CWSMER***

Mynegwyd siom gan y Swyddog oherwydd mai 38% yn unig oedd wedi ymateb i'r holiadur a ddosbarthwyd i holl ddalwyr angorfeydd ym Mhwllheli fel y gallent roi barn ar y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli eu bod hwythau wedi cwblhau arolwg manwl yn yr Hafan a'r harbwr a bod canran uchel wedi ymateb. Mynegwyd parodrwydd i drafod y canlyniadau gyda'r swyddog
a gwerthfawrogwyd y cydweithrediad yma.

## ***AD-DREFNU GWASANAETHAU***

Cyfeiriodd y swyddog at newidiadau a fu'n ddiweddar yn sgil sefyllfa ariannol heriol y Cyngor. Ers nifer o flynyddoedd bu'r Uned Forwrol yn rhan o'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Bellach daeth yr Uned Dysgu Gydol Oes i ben gyda'r Uned Forwrol yn dod yn rhan o Wasanaeth Datblygu'r Economi.

Pwysleisiodd y swyddog fod toriadau yn anorfod a bod y gweithlu yn faes na ellir ei anwybyddu. Fodd bynnag ychwanegodd fod nifer y gweithwyr yn brin a'u bod yn gweithio dan gryn bwysau. Ac eithrio'r Hafan 10 o swyddogion sydd yn cynnal y gwasanaeth yn ystod y gaeaf a'r rhan fwyaf o'r haf.

O ystyried y sefyllfa eglurwyd na fydd swyddi'n cael eu colli ond fod ail strwythuro yn bosibilrwydd gan edrych ar ffyrdd o gael gwell gwerth am yr arian sy'n cael ei fuddsoddi yn harbyrau'r ardal.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## ***DISEL COCH***

Adroddodd y swyddog ar drefn newydd a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2008 yn unol â Deddfwriaeth Ewropeaidd.

Mae'r ad-daliadau ar y tollau sydd wedi eu gosod ar ddisel coch i'w ddefnyddio gan fadau pleser wedi dod i ben. O ganlyniad mae .4066c o dollau ychwanegol yn daladwy ar bob litr o ddisel coch pan fydd yn cael ei brynu. Bydd pris disel coch felly yn cynyddu i £1:06c y litr.

Pryderai'r swyddog y gallasai'r cynnydd gael effaith andwyol sylweddol ar y defnydd a wneir o fadau pleser. Nid yw'r cynnydd yn berthnasol i'r gweithredwyr masnachol sef llestrau pysgota, llongau sy'n cario teithwyr, llongau gwaith ayyb.

Ymhelaethodd y swyddog ar reolau pellach a dulliau o'u gweinyddu. Eglurodd na fydd y tollau'n daladwy os yw'r disel coch yn cael ei brynu ar gyfer cynhesu'r bad neu i wefru'r batri. Mae'r tollau ychwanegol felly'n berthnasol i ddisel coch a ddefnyddir i yrru badau pleser.

Fodd bynnag, cyn derbyn y disel, bydd yn ofynnol i'r prynwyr gwblhau ac arwyddo datganiad statudol er mwyn nodi ymlaen llaw'r ganran o'r disel coch gaiff ei ddefnyddio i yrru'r bad a'r ganran gaiff ei defnyddio i wresogi/gwefru'r bad. Y ganran a argymhellir yw 60% ar gyfer gyrru a 40% ar gyfer gwresogi /gwefru

Y cyflenwr tanwydd sy'n gyfrifol am gasglu'r tollau ychwanegol a rhoi gwybod i'r Tollau Tramor a Chartref am y tollau ychwanegol a gasglwyd. Ond pwysleisiodd y swyddog nad oes cyfrifoldeb pellach ar y cyflenwr ac na allant gwestiynu'r wybodaeth a roddir gan y prynwr.

Nodwyd fod yr Uned Forwrol yn bryderus am yr oedi sy'n debygol o gael ei achosi ger y pontŵn tanwydd wrth gwblhau'r datganiad statudol a'r gwaith o gyfrifo'r tollau. Ychwanegwyd fod gwaith trylwyr wedi ei wneud mewn darpariaeth a galwodd y swyddog ar i bawb fod yn amyneddgar gan fod y drefn yn un statudol ac y gallasai tagfeydd gael eu creu ar adegau prysur.

Awgrymwyd amrywiol ffyrdd o wynebu'r trafferthion gan gynnwys y posibilrwydd o ryddhau ffurflenni angenrheidiol ymlaen llaw neu osod un pris am y disel coch, a gwneud rhaniad rhesymol ar ddiwedd tymor.

Cyfeiriodd aelod at system gyfrifiadurol fyddai'n cwtogi ar yr amser fyddai'r pryniant yn cymryd a derbyniwyd y byddai'n rhesymol ymchwilio'n fanylach i'r posibilrwydd yma.

Yn ôl aelod a oedd wedi dilyn y system wrth brynu'r disel, cymerodd y gwaith tua thri munud yn fwy nag arfer ac ni welai fod angen pryderu'n ormodol. Nodwyd ymhellach y dylid rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y system newydd.

Dywedodd Rheolwr yr Hafan y byddai'n haws datgan barn ar y mater ar ddiwedd y tymor pan fydd profiad gan yr Uned o ymdrin â'r system.

**PENDERFYNWYD:**
**i) derbyn yr adroddiad**
**ii) bod llythyr yn cael ei anfon at y defnyddwyr yn rhoi gwybod iddynt am y ddeddfwriaeth a'r system newydd a bod cynrychiolwyr Cymdeithas Hafan Pwllheli hefyd yn rhoi gwybod i'w haelodau am y drefn newydd.**

**iii) bod ymholiadau'n cael eu gwneud i'r posibilrwydd o ddefnyddio system gyfrifiadurol fyddai'n hwyluso'r gwaith.**

***CRAEN HAFAN PWLLHELI***

Adroddwyd fod disgwyl i graen newydd gael ei phwrcasu i weithio yn Hafan Pwllheli o fewn tua 5 mis. Bu peth oedi gan ei bod bellach yn angenrheidiol i hysbysebu'r angen i amnewid craen y cychod ar wefan Buy 4 Wales .

Ychwanegwyd fod gwaith atgyweirio wedi ei gwblhau ar y graen presennol sydd bellach yn gweithio'n llawer gwell.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

***CARTHU'R HARBWR***

Adroddodd y Peiriannydd Grŵp fod gan yr Uned restr o gontractwyr addas ac mai'r cam nesaf fyddai paratoi dogfennau a chael hawliau amgylcheddol fel y gellir mynd allan i dendr a mynd ati garthu'r harbwr yn ystod y gaeaf nesaf.

Cyfeiriodd aelod at adroddiad ymgynghorol ar garthu'r harbwr, a mynegwyd siom ganddo am nad oedd gwybodaeth lawn ar gael am y cyfan o'r harbwr. Ychwanegodd fod yr ymgynghorwyr wedi cael cyfarwyddyd i gyflwyno adroddiad ar y sianel a basn yr Hafan yn unig.

Mewn ymateb esboniodd y Peiriannydd Grŵp fod y cyfan yn cael ei ystyried o safbwynt y sefyllfa ariannol a'r gwaith a ellid ei wneud o fewn y gyllideb.Credai'r aelod y byddai'n well i'r ymgynghorwyr gyflwyno adroddiad ar y cyfan o'r harbwr gyda'r Uned yn rhoi ystyriaeth yn ddiweddarach i'r hyn ellid ei wneud.

Mynegwyd pryder pellach oherwydd dirywiad mewn rhannau o'r harbwr gyda'r llaid yn effeithio ar symudiad rhai cychod. Yn ychwanegol nodwyd fod llif y dŵr yn y sianel yn hynod gryf oherwydd bod y llaid sy'n casglu yno yn gwneud y sianel yn eithriadol o gul. Rhybuddiwyd fod hyd yn oed llongwyr profiadol lleol yn cael trafferthion o achos y sefyllfa ac y gallasai damwain ddifrifol ddigwydd os na cheir gwelliant buan.

Esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod elfen o or-garthu wedi cael ei mwynhau yn y gorffennol ond bod y sianel a'r Hafan bellach wedi cyrraedd lefelau yn unol â'r dyluniad gwreiddiol a wnaed nifer o flynyddoedd yn ôl.

'Roedd y swyddog yn falch fod gwaith am gael ei wneud yn ystod y gaeaf nesaf, ond 'roedd hefyd yn derbyn fod rhai angorfeydd yn sychu. Ychwanegodd y byddai'n anodd cael yr hawliau angenrheidiol i garthu rhannau eraill o'r harbwr oherwydd bod gwerth y llaid o safbwynt amgylcheddol mor bwysig.

Pwysleisiodd y swyddog mai'r sianel a basn yr Hafan yw'r prif elfennau i'w hystyried a bod y rhain yn cael sylw. O safbwynt rhannau eraill o'r harbwr dywedodd y byddai'n rhaid cadw golwg ar y llanw pan yn mordwyo at angorfa yn yr harbwr allanol. Yn ogystal, rhaid rhoi sylw i'r gwaith o waredu'r llaid a chael safle addas ar gyfer hyn.

Mynegwyd pryder gan aelod oedd o'r farn y byddai oedi'n ormodol gyda'r carthu mewn mannau yn creu trafferthion pellach wrth geisio cael yr hawliau angenrheidiol yn y dyfodol gan y byddai lefel y warchodaeth yn cryfhau.

'Roedd aelod arall am dynnu sylw at y manteision a gafwyd yn sgil y gor-garthu a fu yn y gorffennol ac awgrymodd y byddai'n well gwneud gwaith tebyg heb oedi a sicrhau'r manteision yma am gyfnod pellach.

O ystyried y sefyllfa yn ei chyfanrwydd, credai aelod mai prinder arian oedd gwraidd yr holl broblemau. Ni welai fod modd cael y datblygiadau angenrheidiol heb lesu'r harbwr i gwmni preifat. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i greu ychwaneg o angorfeydd a gwella'r adnoddau fel y byddai ychwaneg yn defnyddio'r harbwr. Pwysleisiwyd ymhellach fod angen denu'r ifanc a chael cyfleusterau addas ar eu cyfer.

Mewn ymateb i ymholiad cadarnhaodd y Peiriannydd Grŵp y bydd gwaith atgyweirio'r morglawdd ger mynedfa'r harbwr yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

'Roedd cwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd R.J. Wright ynglŷn â'r modd y mae llaid yn cael ei gario i'r harbwr yn sail i drafodaeth bellach, ond cytunwyd y byddai'n well cael adroddiadau llawn erbyn y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD bod y Peiriannydd Grŵp yn anfon copïau ar ddisgiau cyfrifiadurol o adroddiadau a ddarparwyd gan beirianwyr ymgynghorol fel y bydd modd i'r aelodau roi ystyriaeth bellach i'r broblem o fwd yn casglu yn yr harbwr yn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn.**

***CWCH***

Ar gais Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn cyfeiriwyd at gwch sydd wedi ei adael ym mhen pellaf 'Partington Marine/Pwllheli Seafoods. Pryderai'r Gymdeithas fod y cwch yn flêr ac mewn cyflwr peryglus.

Cadarnhawyd y bydd y mater yn cael sylw.

***DYDDIAD Y CYFARDOD NESAF***

Cadarnhawyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 13 Hydref 2009.

Dechreuodd y cyfarfod am 6yh a daeth i ben am 8:10yh

**CADEIRYDD**